

Rhif y prosiect: Pwyllgor Cyngori Cymru
Awdur: Lloyd Watkins

Cofnodion Cyfarfod Rhif 74 Pwyllgor Cyngori Cymru (24 Medi 2019)

Er gwybodaeth

Rhif y ddogfen: ACW74
Cyflwynwyd i: ACW 75 (3)
Cyflwynwyd gan: Lloyd Watkins
Noddwr y prosiect: Elinor Williams

Cyfarwyddwr y prosiect: Eleanor Marks
Rheolwr y prosiect: Elinor Williams
Dyddiad ysgrifennu: 24 Hydref 2019

1. Mewnbyn y gofynnwyd amdano

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod rhif 74 o Bwyllgor Cyngori Cymru a gynhaliwyd ar 24 Medi 2019.

2. Crynodeb o'r dadansoddiad

YN BRESENNOL:

Y Pwyllgor:

Hywel Wiliam (Cadeirydd) (HW)
Robert Andrews (RA)
Peter Trott (Aelod) (PT)
Ruth McElroy (RM)
Aled Eirug (Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys) (AE)
Karen Lewis (Aelod ar ran Cymru o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebu) (KL)
David Jones (Aelod ar ran Cymru ar Fwrdd Ofcom) (DJ)

Staff Ofcom:

Elinor Williams, Pennaeth, Materion Rheoleiddiol Cymru (EW)
Joanna Davies, Uwch Gynghorydd yr Iaith Gymraeg (JD)
Lloyd Watkins, Cynghorydd Materion Rheoleiddiol (LW)

Llundain

Emma McFadyen, Cynrychiolydd y Gwledydd yn y Llywodraeth a'r Senedd (EMcF)
Katie Pettifer, Cyfarwyddwr, Cyfarwyddwr yn y Llywodraeth a'r Senedd (KP)
Anthony Szykaruk, Pennaeth, Polisi Cynnwys (AS)
Garreth Lodge, Aelod Cyswllt, Cynghorydd Polisi Cynnwys (GL)
Gary Clemo, Pennaeth, Ymgynghorydd Technegol (GC)
Tom Lancaster, Aelod Cyswllt, Polisi Cynnwys (TL)
Tom Walker, Pennaeth, Polisi Cynnwys (TW)
Alex Waterfield, Uwch Swyddog Cyswllt, Polisi Cynnwys (AW)
Vikki Cook, Cyfarwyddwr, Polisi Cynnwys a Chyfryngau (VC)
Guy Holcroft, Pennaeth Rheoli Cynulleidfa, Gwybodaeth am y Farchnad (GH)

Katerina Sklavounou, Uwch Swyddog Cyswllt, Strategaeth a Pholisi (KS)

Amy Luong, Swyddog Graddedig, Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol Adrodd a Chynllunio Busnes (AL)

Eitem 1: Cyflwyniad y Cadeirydd ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb

1. Rhoddodd y Cadeirydd, Hywel Wiliam (HW), groeso i'r Aelodau a staff Ofcom Cymru i gyfarfod rhif 74 o Bwyllgor Cyngori Cymru, Ofcom (ACW), a gynhaliwyd yn M-Sparc, Ynys Môn, Gogledd Cymru.
2. Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law gan Aelodau o Fwrdd Pwyllgor Cyngori Cymru, Andrew Board a Rem Noormohamed.
3. Ymddiheuriadau wedi dod i law gan Eleanor Marks a Liz Nash o Ofcom Cymru.

Eitem 2: Diweddarau datganiadau o fuddiannau'r Aelodau

4. Cafodd Aled Eirug (AE) ei benodi i weithgor o Lywodraeth Cymru sy'n adolygu Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
5. Bydd HW yn gwneud rhywfaint o waith darlithio yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro, yn rhan-amser, ar gwrs Diploma mewn Newyddiaduraeth. Mae'r cwrs wedi'i osod gan y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddi Newyddiadurwyr (NCTJ), ac mae'n ymdrin â Chyfraith y Cyfryngau, Materion Cyhoeddus a Rheoleiddio Darlledu.
6. Mae gwaith RM gyda grŵp Clwstwr Prifysgol De Cymru yn golygu y bydd yn gweithio gyda rhai darlledwyr.

Eitem 3: Cofnodion Cyfarfod Rhif 73 - Materion yn Codi a Chamau Gweithredu

7. Adolygwyd Cofnodion cyfarfod rhif 73 o Bwyllgor Cyngori Cymru, Ofcom, a nodwyd y diwygiadau. **CAM GWEITHREDU – LW**
8. Trodd y Cadeirydd at y camau gweithredu – derbyniwyd pob un o'r camau gweithredu.
9. Nodwyd y camau gweithredu canlynol o gofnodion cyfarfod rhif 73:
 - a. Eitem 5 – BBC Eitem 5 – Roedd BBC Cymru Wales wedi gwahodd aelodau Pwyllgor Cyngori Cymru i ddod am daith o amgylch ei bencadlys newydd yng Nghaerdydd. Cadarnhaodd EW y bydd staff yn symud i'r adeilad newydd yn ystod wythnos gyntaf mis Tachwedd ac mai'r tîm Newyddion fydd y rhai olaf i symud ym mis Mawrth 2020. Awgrymodd HW y dylid aros nes bydd y gwaith symud wedi'i gwblhau. Credai AE y byddai'n werth mynd ddwywaith, a gorau oll pe gellid ymweld cyn diwedd y flwyddyn hon. Consensws Pwyllgor Cyngori Cymru oedd mynd cyn gynted â phosibl ac roedd DJ yn fodlon aros. **CAM GWEITHREDU – EW i drefnu ymweliad â BBC Cymru Wales**
 - b. Dywedodd HW y bydd gan Kevin Bakhurst ddiddordeb mewn trafodaeth ynglŷn â Radio Cymunedol yn ystod ei ymweliad â swyddfa Cymru ddechrau mis Hydref. Dywedodd EW y gallai radio cymunedol weld newid cadarnhaol gan fod nifer o orsafoedd wedi manteisio ar y cyfleoedd i ymestyn eu darpariaeth. Roedd hyn yn newyddion da i DAB ar raddfa fach ac i radio masnachol hefyd.

- c. Eitem 7 (14) – Cafwyd trafodaeth ynghylch caffael data a’r BBC. Mynegodd RA bryder ynglŷn â chwarae eto a'r posibilrwydd y gallai data pobl a oedd yn talu’r drwydded gael eu cymryd, drwy drydydd partïon. Gallai hyn arwain at lai o bobl yn defnyddio podlediadau Cymraeg, yn hytrach na mwy. Gofynnodd RA a fyddai Ofcom yn cynnig arweiniad ynglŷn â’r cwestiwn a yw penderfyniad y BBC i atal mynediad y gynulleidfa at bodlediadau’r BBC drwy wasanaethau Google, gan ofyn yn hytrach i ddefnyddwyr ddefnyddio ei wasanaeth BBC Sounds ei hun, yn gyson â’i rwymedigaethau dan ei Bolisi Dosbarthu gydag Ofcom? Ychwanegodd RM y byddai’n hoffi clywed rhagor gan y BBC ynglŷn â mynediad i ddefnyddwyr o Gymru.
- d. Ychwanegodd PT nad oedd ap BBC Sounds yn cael ei gefnogi gan systemau gweithredu hŷn Apple, ond nid yw hynny’n wir ar gyfer apiau radio eraill.
- e. Eitem 16 – Dywedodd HW fod angen mewnbwn ar gyfer adroddiad Cysylltu’r Gwledydd a Chyfryngau’r Genedl a bod angen gwneud penderfyniad all-lein.
- f. Eitem 14 (40) – Cymru Greadigol. Dwedodd RM ei bod wedi clywed am yr astudiaeth ddrafft ddiwygiedig ac nad oedd Pwyllgor Cyngori Cymru wedi bod yn rhan o hyn. Gofynnodd HW i EW a allai hi gadarnhau y bydd enw Pwyllgor Cyngori Cymru ar unrhyw restr o wahoddedigion yn y dyfodol. Arweiniodd hyn at sgyrsiau am hyfforddi a sganio’r gorwel. Dywedodd PT y dylai hyn helpu’r paratodau ar gyfer Cynllun Blyneddol Ofcom. Gofynnodd HW i EW hwyluso’r cyfarfod hwn. Cadarnhaodd EW y byddai angen i hyn ddigwydd yn gynharach na mis Tachwedd er mwyn cael ei gynnwys mewn pryd ar gyfer Cynllun Blyneddol nesaf Ofcom. Holodd PT ynglŷn ag ymweliad posibl gan Bwyllgor Cyngori Cymru â Hyb Wreccsam gan eu bod nhw’n agored i’r syniad. **Cam Gweithredu** – Cadarnhaodd yr aelodau y **cyfarfod ar 21 Hydref, 2019.**

Eitem 4: Adroddiad y Cadeirydd

- 10. Rhoddodd HW ddiweddariad llafar o weithgareddau'r Cadeirydd ers y cyfarfod diwethaf.
- 11. Daeth ymgynghoriad DAB ar raddfa fach i ben ar 4 Hydref. Y brif broblem oedd y byddai amlblecsau un pwrpas yn cymell gwasanaethau cymunedol a’u bod wedi dewis DAB+ - ni fydd hwnnw’n gydnaws â hen setiau DAB. **Cam Gweithredu – HW a Phwyllgor Cyngori Cymru i ddrafftio ymateb i’r ymgynghoriad**
- 12. Trodd HW at Amrywiaeth a Chonfensiwn Caergrawnt RTS yr aeth iddo ar 20 Medi a oedd yn cael ei arwain gan Lenny Henry.
- 13. Cadarnhaodd HW na fyddai’n gallu cyfarfod Kevin Bakhurst ar ei ymweliad â Chaerdydd ar 8-9 Hydref.

Eitem 5: Diweddariad – Aelod ar ran Cymru ar Fwrdd Ofcom

- 14. Rhoddodd David Jones (DJ) yr wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor Cyngori Cymru ynglŷn â’r cyfweiliadau am swydd Prif Weithredwr, a dywedodd y byddai rhywun yn cael ei benodi yn y flwyddyn newydd.
- 15. Hefyd, rhoddodd wybod i’r aelodau am ddatblygiadau ar Gytundeb y Gweithredwyr Rhwydwaith Ffonau Symudol ac adroddiad y Gadwyn Gyflenwi Telegyfathrebiadau. Dull mwyaf tebygol y cytundeb fyddai mastiau cyffredin ond byddai’n rhaid disgwyl am y cytundeb terfynol. Dywedodd PT fod potensial i ddefnyddio trefniadau crwydro gyda

rhwydweithiau ar sail meddalwedd. Byddai cyfle i fwy o gwmnïau ddarparu gwasanaethau a rhaglenni.

16. Diolchodd HW i DJ am y diweddariad.

Eitem 6: Adroddiad Blynyddol y BBC

17. Croesawodd y Cadeirydd Tom Lancaster, Tom Walker, Alex Waterfield ar alwad fideo. Rhoddodd Tom Walker grynodedd byr o Adroddiad Blynyddol y BBC. Holodd AE wedyn ynglŷn ag effaith ranbarthol a lleol Britbox ac ar iPlayer wrth chwarae deunydd yng Nghymru. Gofynnodd a oedd hyn yn tansailio'r ddealltwriaeth o raglenni wedi'u gwneud y tu allan i Lundain. Roedd cynnwys sy'n cael ei wneud a'i werthu dramor yn osgoi'r rhwydwaith ac roedd yr iPlayer yn tansailio hynny'n llwyr. Dywedodd Hywel fod 'Un Bore Mercher', er enghraifft, (cynhyrchiad ar y cyd gan S4C a'r BBC), yn allweddol oherwydd ei fod wedi osgoi'r rhwydwaith a mynd yn syth i'r iPlayer, gan dorri record iPlayer yn y diwedd ar gyfer ffigurau gwyllo rhaglen heb fod ar y rhwydwaith. Dywedodd AE fod rhwydwaith a rhanbarthol wedi dechrau mynd yn aneglur a bod angen eglurhad gan y BBC ac Ofcom.

18. Gofynnodd RM i TW beth oedd y cymaryddion rhyngwladol? Dywedodd TW mai sefydliadau Americanaidd yn bennaf oedd prif gystadleuaeth y BBC a dywedodd AW ei bod wedi bod yn rhan o drafodaethau gyda rheoleiddwyr o'r Almaen a Ffrainc ynglŷn â'u darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a byddai Ofcom yn parhau â'r rhain mewn sgysiau ehangach. Dywedodd RM ei bod yn barod i fod yn rhan o'r trafodaethau hyn, yn fwyaf arbennig trafod Cymru ddwyieithog a rôl darlledwr gwasanaeth cyhoeddus fel y BBC mewn diwydiannau creadigol.

19. Diolchodd HW i'r tîm am eu cyfraniad i'r cyfarfod.

Eitem 7: Adolygiad o Newyddion a Materion Cyfoes y BBC

20. Croesawodd y Cadeirydd Vikki Cook, Anthony Szykaruk a Garreth Lodge i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am ddod. Dangoswyd clip bach am adborth yn ymwneud â newyddion a materion cyfoes i'r pwyllgor. Roedd dau grŵp ffocws ar newyddion a materion cyfoes yn Abertawe a Bangor. Cadarnhaodd GL fod pobl yn ymddiried yn y BBC fel ffynhonnell gywir a dibynadwy ar gyfer cael newyddion

21. Byddai angen i'r BBC wneud ei hun yn fwy perthnasol ac amrywiol i gymunedau ledled y wlad. Nid oedd gwaith y BBC o sicrhau didueddrwydd dyledus wedi cael ei lunio drwy'r cynnwys yn unig ond trwy nifer o ffactorau fel y bwlch cyflog rhwng rhywiau a scandal Jimmy Saville.

22. Awgrymodd AS y byddai'n werth cael Stephen Cushion i roi cyflwyniad i'r pwyllgor ar ganfyddiadau'r adolygiad o newyddion a materion cyfoes gydag adolygiad King. Dywedodd RM y gallai dadansoddi cynnwys ddangos cymaint oedd wedi newid ers adroddiad King ac na fyddai'n hawdd cyfosod ymchwil y grŵp ffocws â chanfyddiadau blaenorol.

23. Aeth RM ymlaen i holi'n benodol ynglŷn â materion cyfoes – dywedodd AS nad oedd llawer iawn o wahaniaethu rhwng newyddion a materion cyfoes. Roedd yn amlwg i Anthony nad yw'r term materion cyfoes yn golygu llawer i gynulleidfa oedd.

24. Gofynnodd Hywel i'r pwyllgor a fyddai'n werth trefnu sesiwn ar gyfer cyfarfod nesaf Pwyllgor Cynghori Cymru? Cadarnhawyd a derbyniwyd hyn gan y pwyllgor. **Cam Gweithredu - EW i hwyluso**
25. Diolchodd HW i'r tîm am eu cyfraniad i'r cyfarfod.

Eitem 8: Adroddiad – Datblygiadau Diweddar yng Nghymru

26. Roedd papur diweddar wedi'i ddsbarthu'n flaenorol i'r aelodau. Tynnodd EW sylw at y pwyntiau a ganlyn.
- Cyfarfodydd gyda'r BBC a Gwleidyddion.
 - Gofynnodd AE am nodiadau o gyfarfodydd, er enghraifft cyfarfod Eleanor Marks gydag ITV Cymru Wales yn ddiweddar. Gofynnwyd am y rhain hefyd gan aelodau o Bwyllgor Cynghori Cymru a chan KL er mwyn mynd â nhw i gyfarfodydd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau. Gofynnodd AE am ragor o wybodaeth am gyfarfodydd Ofcom Cymru gyda gwleidyddion o Gymru gan y gallai fod yn ddefnyddiol iddo'i rhoi i'r Bwrdd Cynnwys.
 - Atebodd EW gan ddweud y dylai manylion y cyfarfodydd hynny gael eu cynnwys ym mhapurau datblygiadau diweddar Pwyllgor Cynghori Cymru, ond awgrymodd eu rhannu ag aelodau rhwng cyfarfodydd i roi gwybod am unrhyw ddatblygiadau. **CAM GWEITHREDU: LW i weithredu**
 - Bwriad rhaglen datblygu band eang cyflym iawn Llywodraeth Cymru oedd gwneud y gorau o fand eang cyflym iawn yng Nghymru. Roedd angen i bobl fod yn ymwybodol ei fod ar gael ac y gallant fynd i weithdai marchnata digidol. Roedd partneriaeth lwyddiannus gyda Llywodraeth Cymru, Antur Teifi a CirCo Business in Wales. Dywedodd KL fod y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau wedi bod yn cael trafodaethau gyda nhw hefyd. Roedden nhw'n gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd a oedd yn gwneud ymchwil i effaith band eang cyflym iawn yng Nghymru. Roedd Max Monday o Brifysgol Caerdydd yn ei redeg ar y cyd â Mike Groves o Lywodraeth Cynulliad Cymru. **Cam Gweithredu: EW i wahodd Max Monday i ddod i ddigwyddiad gan Bwyllgor Cynghori Cymru yn y dyfodol.**
 - Gofynnodd RA pam yr oedd Lloegr yn elwa o gyllid band eang Cymru mewn lleoedd fel Sir Amwythig ac ardaloedd eraill ar y gorau. Cadarnhaodd EW nad cyllid Cymru oedd hyn o reidrydd ond rhan o'r ardal ystadegol a oedd yn cynnwys llond dwrn o dai ar ochr Lloegr o'r ffin.
 - Roedd Openreach wedi sefydlu Bwrdd i Gymru - wedi'i gadeirio gan Kim Mears, (cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf bythefnos yn ôl). Rhaid ystyried gwersi a ddysgwyd o gam cyntaf Cyflymu Cymru er mwyn sicrhau nad yw'r un camgymeriadau'n digwydd eto.
 - Roedd Eirug Davies, o Openreach, a oedd yn bresennol yn y digwyddiad Pwyllgor Rhanddeiliaid ym Miwmares yn barod i ddod i gyfarfod o Bwyllgor Cynghori Cymru yn y dyfodol i rannu gwybodaeth ac ateb cwestiynau.
Safonau'r Gymraeg:
 - Trafododd EW faterion Ofcom yn ymwneud â'r Gymraeg, yn fwyaf arbennig, ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg i'r Llinell Gymraeg. Roedd y gŵyn yn cymharu'r llinell Gymraeg sy'n cael ei rheoli gan un aelod o staff yn Ofcom Cymru â'r tîm o 20 aelod o staff yng nghanolfan alwadau Ofcom oedd yn ymdrin â galwadau o bob cwr o'r DU yn Warrington.
 - Dim ond yng Nghymru oedd y Safonau'n gymwys. Felly, mae cymharu'r gwasanaeth llinell Gymraeg â Warrington fel cymharu dau beth hollol wahanol. Mae tystiolaeth

Ofcom i Gomisiynydd y Gymraeg ddechrau mis Awst yn dadlau y dylai'r Comisiynydd gymharu'r llinell Gymraeg â phrif switsfwrdd Ofcom Cymru yng Nghaerdydd. Roedd hwnnw yr un fath yn union â'r llinell Gymraeg. Nid oedd ganddo ymatebion wedi'u hawtomeiddio fel Warrington ac os oedd y tîm bach yn Ofcom Cymru yn methu â chymryd y galwadau, gofynnwyd yn y Gymraeg a'r Saesneg i'r galwyr adael neges.

- j. Bydd Alison Crosland, Cyfarwyddwr Grŵp Ofcom ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol ac EW yn cwrdd â'r Comisiynydd ar 1 Hydref, 2019 i drafod hyn a materion eraill ymhellach.

Eitem 9: Diweddariad – Aelod ar ran Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau

27. Rhoddodd KL drosolwg o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebu. Ym mhob cyfarfod misol ym mhencadlys Ofcom yn Riverside House, roedd 4 cyflwyniad gan dimau amrywiol yn Ofcom.
28. Roedd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn awyddus i gael mewnbwn gan randdeiliaid, sef y rhai sy'n cynrychioli pobl hŷn a defnyddwyr eraill sy'n fwy agored i niwed. Bydd KL yn cynnal digwyddiad bwrdd gron ym mis Rhagfyr gyda 12-15 o bobl i gasglu barn ynglŷn â materion sy'n eu hwynebu yng nghyswllt y farchnad gyfathrebiadau, er enghraifft, symud i VoIP. **Cam Gweithredu EW: Ofcom Cymru i hwyluso cyfarfod ar hyn. Ni fyddai Ofcom yn cymryd rhan ond byddai gwahoddiad i aelodau o Bwyllgor Cyngori Cymru.**
29. Bydd KL yn mynd i'w chyfarfod cyntaf gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru y mis nesaf. Byddai'n trafod ei phryderon ynglŷn â symud i VoIP, o ran pwy oedd yn talu am y gwaith o symud plygiau a socedi ac ati yn eiddo cwsmeriaid.

Eitem 10: Adroddiad – Polisi Cyhoeddus

30. Croesawodd HW Katie Pettifer, (KP) Cyfarwyddwr Polisi Cyhoeddus, a ymunodd â'r cyfarfod dros y ffôn. Hysbysodd KP Bwyllgor Cyngori Cymru ynglŷn â'r newyddion a oedd newydd dorri nad oedd y Senedd wedi'i gohirio yn ôl barnwyr y Goruchel Llys y DU. Cafodd yr aelodau yr wybodaeth ddiweddaraf ar y Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd (EECC) newydd. Roedd Llywodraeth y DU yn penderfynu sut i drawsosod y rhain â'r potensial ar gyfer technoleg sy'n gallu delio â Gigabit yn y DU erbyn 2025.
31. Nodwyd y gallai Ofcom gyflawni rôl rheoleiddio dros-dro ar gyfer llwyfannau rhannu fideos. Roedd trafodaethau rhwng y llywodraeth a'r Gweithredwr Rhwydwaith Symudol (MNO) ar gynnig i wella'r ddarpariaeth symudol.
32. Cadarnhaodd KP y bydd Kevin Bakhurst yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ym mis Tachwedd.
33. Gofynnodd AE beth oedd Ofcom yn ei wneud er mwyn ennyn diddordeb pobl Cymru yn "Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr". Dywedodd KP bod tîm DGC yn gweithio ar gynlluniau ar sut i wneud hynny. Mynegodd aelodau Pwyllgor Cyngori Cymru eu diddordeb mewn bod yn rhan o'r drafodaeth.
34. Holodd AE ynglŷn â goblygiadau "Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr" i S4C. **CAM GWEITHREDU - KP i ganfod mwy am rôl S4C drwy dîm DGC y prosiect.**

35. Dywedodd AE y byddai'r Sefydliad Materion Cymreig yn gwneud ymchwil er mwyn diweddarau'r archwiliad a gwblhawyd ganddynt yn 2015 o'r Cyfryngau yng Nghymru. Byddai hyn yn digwydd yn niwedd yr Hydref/dechrau'r Gwanwyn. Byddai'r adroddiad hwn yn cyffwrdd darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Roedd potensial iddo fynd law yn llaw â gwaith Ofcom ar gyfer "Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr".
36. Pwysleisiodd KP ei bod yn bwysig bod y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn cael ei gynnwys mewn materion sy'n ymwneud â llythrennedd digidol a llythrennedd cyfryngau oedolion. **CAM GWEITHREDU: Cytunodd KP i siarad â'r timau perthnasol er mwyn sicrhau bod y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau'n cael ei gynnwys fwy.** Diolchodd HW i KP am ei mewnbwn ac aeth ymlaen i eitem 11.

Eitem 11: Cynllun Blynyddol Ofcom 2019/2020

37. Croesawodd HW Guy Holcroft, Katerina Sklavounou ac Amy Luong drwy dechnegau fideogynadleda. Eglurodd GH fod Cynllun Blynyddol newydd Ofcom megis dechrau, ond ni fydd disgwyl i'r adrannau thematig newid. Awgrymodd y dylai Pwyllgor Cyngori Cymru edrych drwy'r naw thema sydd wedi'u hamlinellu yn ei bapur. Y tair prif thema oedd—cysylltedd, gwell band eang a ffonau symudol. Roedd rhai ohonynt yn fwy seiliedig ar un thema, er enghraifft Brexit – does wybod beth fydd canlyniad hynny. Roedd y post hefyd yn un thema.
38. Dywedodd RM mai un o'r pethau sy'n amlwg yn adroddiad Cyfryngau'r Genedl Cymru yw bod ffigurau gwyllo S4C wedi gostwng. Roedd gosod hynny ochr yn ochr â'r awydd i weld darlledwyr yn ffynnu yn gofyn cwestiynau ynghylch beth mae'n ei olygu i ddarlledwyr fel S4C yn benodol?
39. Dywedodd HW na fyddai'r ffenestr newydd o flwyddyn ar gyfer argaeledd rhaglenni, sy'n cael ei gynnig gan iPlayer, yn hyfyw i S4C oherwydd costau hawliau. Fel darlledwr iaith leiafrifol, roedd costau'n cyfyngu arnynt.
40. Dywedodd GH y gallai S4C gael rhywfaint o'r prif ofod yn yr adran 'gwasanaethu rhan o'r DU' yn y Cynllun. Awgrymodd RM y dylid meddwl mewn ffordd gyfannol ynglŷn â sut i helpu darlledwyr unigryw, fel S4C, i ffynnu. Beth oedd hynny'n ei olygu a'r heriau oedd yn eu hwynebu a sut byddai Ofcom yn gallu helpu.
41. Awgrymodd RA fod angen canolbwyntio mwy ar yr adran Ddarlledu yng Nghymru.
42. Awgrymodd PT ar yr ochr delathrebu, fod yr adran am Gymru angen cael ei hehangu, i gefnogi arloesi yng Nghymru wledig a'i heconomi yn gyffredinol.
43. **Cam Gweithredu: Pwyllgor Cyngori Cymru i ddrafftio adran am flaenoriaethau Cymru ar gyfer 2020/21 cyn gynted ag y bo modd.**
44. Nodwyd y byddai ymgynghoriad ynghylch y Cynllun ddechrau mis Rhagfyr. **CAM GWEITHREDU – Aelodau Pwyllgor Cyngori Cymru/EW i nodi'r ymgynghoriad a'r adborth.**

Eitem 12: Adroddiad – Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys

45. Cyfeiriodd AE at y prif bwyntiau yn yr adroddiad:

- a. Roedd AE wedi bod yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd Cynnwys ym mis Gorffennaf. Roedd AE yn bryderus ynglŷn ag ansawdd data Amrywiaeth mewn Darlledu sy'n cael eu rhoi i Ofcom gan ddarlledwyr. Roedd AE yn teimlo y dylai'r data fod mor fanwl â phosibl a hoffai weld y data cyfredol. Roedd AE yn credu bod problemau mawr yng nghyswllt rhywedd a BAME, (tua 15-20% o'r boblogaeth yng Nghymru).
- b. Dywedodd JD fod adroddiad diweddaraf Ofcom ar Amrywiaeth mewn Teledu wedi'i gyhoeddi yr wythnos cynt.
- c. Holodd AE ynglŷn â darpariaeth data S4C. Dywedodd JD fod Ofcom yn gofyn i S4C wneud hynny, ond nad oeddent wedi cyflenwi data eleni na'r llynedd gan nad oedd yn rhaid iddynt wneud hynny. Eglurodd JD ei bod wedi gwirio hyn gan ei fod yn effeithio ar lefelau cyfieithu ac nid oeddent wedi rhoi gwybodaeth.
- d. Dywedodd EW fod Owen Evans (Prif Weithredwr S4C) wedi dweud yn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yr wythnos cynt– fod amrywiaeth yn bwysig iawn i'r darlledwr.
- e. Gofynnodd HW a oedd modd i ni gynnwys TAC (Teledwyr Annibynnol Cymru).
- f. Gofynnodd KL a oedd Ofcom yn dal i edrych ar nodweddion gwarchoddedig sy'n dal o dan y radar yn ei barn hi. Nododd KL fod y BBC wedi bod yn gwneud cynnydd wrth hysbysebu am brentisiaethau.
- g. Un o'r heriau mwyaf yn ôl RM oedd diffyg data ynglŷn â chefnidroedd cymdeithasol-economaidd.
- h. Dywedodd JD fod yr adroddiad Amrywiaeth mewn Teledu newydd, am y tro cyntaf eleni, yn casglu gwybodaeth am y math o ysgolion roedd gweithwyr yn y diwydiant wedi bod iddynt, pa gymwysterau oedd gan eu rhieni a beth oedd galwedigaethau eu rhieni ar yr adeg roedden nhw'n blant.
Cam Gweithredu: EW i ganfod pa wybodaeth oedd yn bodoli'n barod – a thurio am ystadegau am Gymru a rhagor o wybodaeth ynglŷn â diffyg cyfranogiad S4C.
- i. Dywedodd AE hefyd y byddai Bwrdd Cynnwys yn monitro llwyddiant sianel newydd BBC Scotland.
- j. Dywedodd AE y byddai rhagor o waith yn cael ei wneud yn yr haf mewn cysylltiad ag amrywiaeth mewn darlledu. Byddai pob un o'r prif ddarlledwyr yn cymryd rhan, gan gynnwys S4C a oedd wedi gwirfoddoli i gymryd rhan.
- k. Dywedodd AE fod y Bwrdd Cynnwys wedi cael cyflwyniad da gan y tîm Gwybodaeth am y Farchnad ynglŷn â newid strwythurol ym marchnad deledu'r DU.

Eitem 13: Unrhyw fater arall ac eitemau ar gyfer agenda'r dyfodol

46. Trefnu ymweld â BBC Cymru Wales. **Cam Gweithredu - EW**
47. Angen ymateb drafft i'r ymgynghoriad DAB ar Raddfa Fach erbyn 4 Hydref. **Cam Gweithredu - HW**
48. Trefnu sesiwn hanner diwrnod ym mis Hydref i drafod "Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr". **Cam Gweithredu: EW a HW**

Eitemau 16-17: Er Gwybodaeth

Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:

21 Hydref 2019 – 2PM-4PM – Trafodaeth am Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr”.

11 Rhagfyr 2019 – Cyfarfod Pwyllgor Cynghori Cymru yng Nghaerdydd

Siaradwyr nesaf i'w gwahodd i gyfarfod Pwyllgor Cynghori Cymru ar 11 Rhagfyr

Stephen Cushion – Dadansoddi Materion Cyfoes

Siaradwyr nesaf ar gyfer cyfarfod 2020

- Cyfranogwyr ym Mhrosiect y Ganolfan Prosesu Signalau Digidol (M-Sparc)
- Max Munday, Prifysgol Caerdydd
- Eirug Davies, Openreach
- Ymddiheuriadau gan DJ am nad oedd yn gallu mynd i'r cyfarfod ar 11 Rhagfyr.

Llofnod Dyddiad

Hywel Wiliam, Cadeirydd, Pwyllgor Cynghori Cymru, Ofcom